# CYNLLUN GWELLA YSGOL HENBLAS – EDRYCH YN OL AC I'R DYFODOL!

Blwyddyn brysur yn Ysgol Henblas! https://youtu.be/wkikCbXv7lA

## UCHAFBWYNTIAU'R FLWYDDYN 2023-24

Gwefan Ysgol Henblas: http://ysgolhenblas.org/

"Diolch am y tocynnau y bore 'ma. Plant annwyl a chwrtais ac Ysgol Henblas i'w gweld yn lle hapus iawn! Linda'r Hafod - plant yn gwerthu tocynnau Hwyl Henblas

*"We are so happy with Ysgol Henblas and feel incredibly lucky that our children go to such a supportive, encouraging, wonderful primary school. All our children love attending school. The staff are absolutely amazing and we are just so grateful to all of them." (rhiant Mai 2024)*

"Wedi cael bore hyfryd. Ethos Gymreig gryf i weld yn yr ysgol. Plant yn ymateb yn dda yn y gwasanaeth Siarter Iaith. Braf oedd cael sgwrsio gyda criw Siarter Iaith a phawb yn frwdfrydig iawn. "
Rhian Roberts - Cydlynydd Siarter Iaith

"Dros flwyddyn o ymweld ag ysgolion - plantos Henblas yn sefyll allan fel y rhai sy'n eistedd a gwrando orau mewn gwasanaeth gyda'r plant meithrin a derbyn yn hollol wych.
Debbie Humphreys
Sustrans Cymru



"Pnawn hyfryd efo'r dosbarth derbyn, criw oedd wrth eu boddau'n dysgu am faint o gestyll oedd ymhob sir. Defnydd gwych o eirfa Cymraeg. Hyfryd bod efo nhw.
Ann Eluned Cydlynydd Athrawon Newydd Gymhwyso

"Great to present my rock and volcanoes workshop to the year 5 and 6 children. It was a pleasure to work with very interested and inquisitive children, a few questions tested me and they were keen to learn new facts.
Steven Wright Celeld Rocks

"Diolch diolch am gael bod yn eich cwmni yn gwylio eich cyflawniad anferthol. 'Da chi gyd yn wych.
Llinos Medi - barddoniaeth noddedig Dydd Gwyl Dewi 2024



"Had a super time at Ysgol Henblas delivering a lego robotic day. The children worked really hard and kept trying - not daunted by some challenging activities. We all had loads of fun and learnt a lot too.
Alex Clewett - Technocamps

"Wedi cael modd i fyw yn yr ysgol. Siaradwyr gwych a brwdfrydig ac yn amlwg yn sêr y dyfodol.
Elin Lloyd Newyddion S4C




"Thank you SO much for including me in the meeting today. I was very inspired by everything your schools are doing to create more kindness, respect for all of life – and peace – in the world. Thank you to ALL your teachers and to all the children.
Sheila Roberts - Heddwch Cymru

"Llongyfarchiadau mawr i chi fel ysgol, yr ora ar Ynys Mon!
Derec Owen (yn dilyn y ffair haf yn codi £1229.60)

"Wedi cael dau ddiwrnod byrlymus yn cyflwyno hanes yr iaith Gymraeg i blant bl 5 a 6 drwy gyfrwng drama ynghyd a chyflwyno technegau drama i hybu llafaredd. Unwaith eto mae wedi bod yn bleser dod yma. Mae'n ysgol hapus gyfeillgar a'r plant a'r athrawon yn frwdfrydig a chroesawgar a braf oedd clywed yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio yn naturiol.
Rhian Cadwaladr - Actores ac awdures

*"Wrth ein bodd hefo Ysgol Henblas ac yn teimlo mor lwcus fod ein plant yn cael ei addysg gynradd mewn ysgol mor hapus, cartrefol. Llawn gweithgareddau diddorol, hawdd iawn siarad hefo'r athrawon os unrhyw broblemau." (rhiant Mai 2024)*

*"The school is an excellent nurturing environment with a family feel. Sport and outdoor activities are encouraged and promoted." (rhiant Mai 2024)*

EIN CRYFDERAU:

- RYDYM YN GWRANDO AR EIN DISGYBLION AC YN EU CYNNWYS YMHOB AGWEDD O'U DYSGU.
- CYMUNED HAPUS AC YMDEIMLAD CRYF O BERTHYN I DEULU CLOS.







**Meysydd Adolygu -** Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau parhaus o fewn y meysydd canlynol:
- Arweinyddiaeth;
- Cwricwlwm;
- Addysgu a Dysgu;
- Lles, Tegwch a Chynhwysiant;

## Arweinyddiaeth

Gweithredu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig 'gwreiddiau i dyfu ac adenydd i hedfan' i ddisgyblion Ysgol Henblas.
Mae disgyblion yn datblygu eu lles a'u medrau sylfaenol yn llwyddiannus mewn awyrgylch teuluol.
Ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio ar draws cymuned glòs yr ysgol.
Mae awyrgylch ble mae pawb yn uchelgeisiol ac yn dyheu am y gorau.

*"Mae Ysgol Henblas yn ysgol dda iawn, cefnogol drwy'r adeg. Mae'r plant yn lwcus iawn o holl staff yr ysgol. Rydym fel rhieni bob amser yn cael gwybod o flaen llaw be sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol ...Diolch i chi gyd am eich gwaith caled ar hyd y flwyddyn." (rhiant Mai 2024)*

## Cwricwlwm

Mae gan athrawon ymagwedd fyfyriol at gynllunio'r cwricwlwm, gan fireinio eu cynlluniau i ystyried y dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer eu disgyblion.
Datblygu ymwybyddiaeth o egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru.
Datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant disgyblion ar draws yr ysgol gan lunio'r camau datblygu nesaf ar eu cyfer.
Trwy gynllunio themâu cyfoethog, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy brofiadau byw ac ystyrlon.

*"Thank you for educating (my child) to a high standard and keeping him happy and safe in your care." (rhiant Mai 2024)*

*"(my child) loves attending school- this is a testament to how happy he is and the support he gets there, diolch" (rhiant Mai 2024)*

## Addysgu a dysgu

Gweithredu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.
Darparu profiadau dysgu sydd wedi ei wreiddio yn yr ardal leol ac yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol.
Disgyblion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.
Staff dysgu yn adnabod anghenion disgyblion yn dda.
Mae gan y staff dysgu ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu y cynnydd cadarn.

## Lles, Tegwch a Chynhwysiant

Cymuned gyfeillgar, groesawgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo hapusrwydd, cwrteisi ac ymddygiad ardderchog.
Mae ymdeimlad gofalgar tuag at bob disgybl.
Creu amgylchedd dysgu cynhwysol a diogel lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n dda i hyrwyddo a datblygu lles disgyblion.
Mae trefniadau cadarn ac effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion, gan feithrin perthynas gadarn â disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles.

# LLWYDDIANT BLAENORIAETHAU 2023-24

### Siarter Iaith

- Holl ddisgybion yr ysgol wedi dysgu hwiangerddi ac englynion sydd wedi datblygu eu geirfa ac ymwybyddiaeth o batrymau brawddegau.
- Athrawon a chymorthyddion yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth.
- Disgyblion yn annog cyfoedion llai hyfedr eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn modd gynhaliol a phositif.
- Disgyblion yn trafod eu gwaith yn dda iawn gan gyfeirio at waith blaenorol, a'r rhan fwyaf yn siarad am eu gwaith cyfredol yn fywiog

### Dysgwyr digidol gwybodus

- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod fuddiol o fedrau digidol sy'n eu helpu i gefnogi eu dysgu.
- Gyda hyder cynyddol mae'r disgyblion yn deall bod rhoi gwybodaeth ar-lein yn gadael ôl-troed digidol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn adnabod manteision ac anfanteision cyfryngau digidol ar les gan gynnwys agweddau o:

a) bwysigrwydd cydbwysedd a rheoli amser ar lein
b) effeithiau corfforol/ emosiynol o chwarae/gwylio cynnwys/ gemau

### Gweithredu ar adborth


- Athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml ac effeithiol
- Mae llawer o'r disgyblion yn ymateb i adborth yn rheolaidd, sydd o ganlyniad yn cynnig arweiniad clir iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu.
- Egwyddorion adborth ar waith effeithiol a chyson sydd yn sicrhau safonau dysgu ac addysgu da ar draws yr ysgol.
- Mae llawer o'r disgyblion yn gallu darparu adborth i'w cyfoedion sydd yn eu cynorthwyo i wella eu gwaith gan ymateb i'r meini prawf llwydiant luniwyd ar y cyd mewn rhai enghreiffitau.

### Presenoldeb

- Caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro'n drwyadl
- Trwy weithio'n agos gyda'r swyddog lles ac asiantaethau eraill cynigir cefnogaeth gref i deuluoedd er mwyn cynnal presenoldeb da.
- Hyrwyddir diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus
- Mae cadw disgyblion yn ddiogel yn flaenoriaeth amlwg.
- Mae holiadur lles ar gyfer y disgyblion yn nodi fod bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn eu gwaith a'u chwarae.
- Mae gweithredu gweledigaeth glir yn seiliedig ar les ac hapusrwydd yn cael effaith dda ar agweddau'r disgyblion at ddysgu, eu hymddygiad cadarnhaol ac o ganlyniad eu presenoldeb.

## Beth Nesaf?

Rydym yn datblygu'r ysgol ar sail blaenoriaethau cenedlaethol, lleol a'r hyn mae ein cymuned yn ei ddweud wrthym.
Er mwyn cyrraedd ein nod rydym yn troi at y gefnogaeth eang sydd ar gael ar hyd y daith.




# BLAENORIAETHAU GWELLA 2024-25

Dyma'r meysydd datblygu y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gorau er lles ein dysgwyr.

## 1

Gwella medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm.



- Sicrhau mwy o dasgau ysgrifennu sgil benodol er mwyn codi safonau a datblygu cywirdeb cynyddol wrth ysgrifennu.
- O ganlyniad i'r uchod bydd iaith ysgrifenedig y disgyblion yn fwy naturiol.
- Datblygu gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n rhydd mewn unrhyw arddull.

## 2

Datblygu yn ddisgyblion digidol gwybodus

- Dyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr o hunaniaith ac e-ddiogelwch.
- Codi safonau cymhwysedd digidol ar draws yr ysgol
- Y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn adnabod manteision/anfanteision cyfryngau digidol ar les gan gynnwys agweddau o:

a) bwysigrwydd cydbwysedd a rheoli amser ar lein
b) effeithiau corfforol/ emosiynol o chwarae/gwylio cynnwys/ gemau



## 3



Gwella cyfleoedd i ddisgyblion weithredu ar adborth cyfoethog fel eu bod yn symud ymlaen yn eu dysgu

- Sicrhau cysondeb yn y defnydd effeithiol o adborth (llafar ac ysgrifenedig) gan bob un o'r athrawon/staff dysgu sy'n cynorthwyo'r disgyblion i gymryd y camau nesaf yn eu dysgu
- Disgyblion yn gwella eu gwaith yn annibynnol drwy gyfeirio at y meini prawf llwyddiant ac ymateb yn llwyddiannus i adborth gan gyfoedion ac athrawon
- Datblygu sgiliau metawybyddol disgyblion a chymryd cyfrifoldeb gynyddol am y camau nesaf yn eu dysgu gan ystyried adborth blaenorol/targedau i wella wrth weithio ar dasgau newydd

## 4

- Gwella effeithiolrwydd ychydig o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm.

- Cau y bwlch rhwng sgiliau a chyrhaeddiad gweithdrefnol a rhesymu.
- Sicrhau fod rhuglder wrth gofio ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau yn tyfu yn gadarn drwy'r ysgol.
- Sichrau fod cynllunio'r ysgol yn adnabod cyfleoedd dilys i ddatblygu medrau rhifedd lleiafrif o ddisgyblion.



## Pwy sy'n Cefnogi?

- Cydweithio gydag ysgolion eraill
- Cynllun cefnogaeth gan wasanaeth cefnogi ysgolion (GWE)
- Cynllun hyfforddiant a chydweithio rhwng staff